

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd yn rhithiol ddydd Llun, 13 Medi 2021

Yn bresennol: Cynghorwyr A M Jones (Cadeirydd), Dylan Rees (Is-Gadeirydd), John Griffith, Alun Roberts, J A Roberts, Bryan Owen a Gary Pritchard

Aelodau Portffolio: Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuentid), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol), Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid)

Wrth law: Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd), Pennaeth Gwasanaeth (Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM), Rheolwr Gwasanaeth (Pobl Hŷn) (IR), Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Pwyllgor (ATH)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Richard O. Jones, Nicola Roberts, Mr Keith Roberts a Mrs Anest Frazer (Aelodau Cyfetholedig), Y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg)

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid), Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd

(1:00 yp tan 2:10 yp)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Monitro Perfformiad: Cerdyn Sgorio Ch1 2021/22 Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
PENDERFYNIAD	Ar ôl ystyried adroddiad y cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 1 2021/22 a'r diweddariadau a roddwyd gan Swyddogion yn ystod y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol ac i argymhell y mesurau lliniaru a amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Monitro Cynnydd: Adroddiad Cynnydd y Gwasanaethau Cymdeithasol Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau bod y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. • Argymhell i'r Pwyllgor Gwaith bod cynnydd a chyflymder y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigonol.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Adroddiad Cynnydd Panel Sgrwtini Cyllid Adroddiad llafar gan Gadeirydd y Panel Sgrwtini Cyllid
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn adroddiad Cadeirydd y Panel Sgrwtini Cyllid ar y materion a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Panel, nodi'r pwyntiau a ddygwyd i sylw'r Pwyllgor a diolch i'r Cynghorydd Dafydd Roberts am yr adborth.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Blaen Raglen Waith Adroddiad gan y Rheolwr Sgrwtini
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar fersiwn gyfredol y flaen raglen waith ar gyfer 2021/22. • Nodi'r cynnydd hyd yma wrth weithredu'r flaen raglen waith.